# Grid Gweithredu − mis Hydref 2018
## Cyngor Datblygu'r Economi

| Cyfeirnod yn y Nodiadau | Gweithredu | Hynt y Gwaith | Statws |
|---|---|---|---|
| **Camau'n codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017** | | | |
| 1.3 | Swyddogion i sicrhau bod "Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol" yn eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Hydref. | Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 12 Hydref. | Wedi'i gwblhau |
| 2.6 | Swyddogion i baratoi Cylch Gorchwyl a sefydlu gweithgor o blith aelodau'r Cyngor i drafod effaith y trefniadau pontio Ewropeaidd ar fusnesau. | Mae Gweithgor y Cyngor ar Ymadael â'r UE wedi'i sefydlu a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf ar 4 Hydref, o dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. | Wedi'i gwblhau |
| 2.12 | Gweinidogion Cymru i ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus David Davis AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, i'w wahodd i un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol. | Ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE ar ôl y cyfarfod a'i wahodd i'r cyfarfod ar 12 Hydref neu i alw cyfarfod arbennig ar ddyddiad a fyddai'n gyfleus iddo. Er gwaethaf dau alwad ffôn arall gan Swyddfa'r Prif Weinidog nid oedd ymateb ffurfiol wedi dod i law erbyn 11 Mehefin 2018. | Y sefyllfa wedi newid oherwydd nad y Gwir Anrhydeddus David Davis AS, yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r DU bellach. |
| 3.6 | Paul Byard i rannu'r papur y mae wrthi'n ei baratoi am Fargeinion Dinesig gyda'i aelodau yn un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol. | Mae papur drafft cychwynnol Paul Byard wedi'i rannu gydag Aelodau'r Cyngor. | Wedi'i gwblhau |
| **Camau'n codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2017** | | | |
| 2.26 | Swyddogion i rannu Adroddiad yr Athro Max Munday â'r aelodau. Roedd yr adroddiad hwn yn ystyried effaith ymadael â'r UE ar gwmnïau mawr a chanolig yng Nghymru. | Cafodd fersiwn gryno o'r adroddiad ei rhannu ag aelodau'r Gweithgor Ymadael â'r UE. Mae'r adroddiad llawn bellach wedi'i wirio gyda'r busnesau a fu'n rhan o'r gwaith ac mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Chwefror. | Wedi'i gwblhau |

| Cyfeirnod yn y Nodiadau | Gweithredu | Hynt y Gwaith | Statws |
|---|---|---|---|
| | | Cafodd yr adroddiad ei anfon at aelodau'r Cyngor ar 2 Chwefror 2018. | |
| 5.3 | Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth y byddai'n trefnu bod y pamffled ar y fasnachfraint rheilffyrdd newydd yn cael ei anfon at aelodau'r Cyngor. | Cafodd y pamffled ei anfon at aelodau'r Cyngor ar 20 Tachwedd 2017. | Wedi'i gwblhau |
| **Camau'n deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2018** | | | |
| | Nid oedd unrhyw gamau'n deillio o'r cyfarfod hwn. | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Camau sy'n deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018** | | | |
| 5.11 | Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y Cynllun Gweithredu ar yr Economi i gwrdd â Derek Walker i drafod bwrw ymlaen ag adroddiad Canolfan Cydweithredol Cymru a Sefydliad Bevan a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar newid y ffordd yr ydym yn cysylltu â phobl ac yn gweithio gyda'n gilydd. | Roedd swyddogion wedi cwrdd â Derek Walker dros yr haf. | Wedi'i gwblhau |
| 8.10 | Rhoi Prentisiaethau ac adolygiad yr Athro Phil Brown o Arloesedd Digidol ar gyfer yr Economi; a Dyfodol Gwaith yng Nghymru ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor. | Eitemau ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod ar 22/10/2018. | Wedi'i gwblhau |